

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi
Cadwaladr, Practis Deintyddol
Dant-y-Coed

08 Gorffennaf 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan GIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Profiad y Claf.....	6
	Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal	8
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	11
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	13
	Y Camau Nesaf	14
	Atodiad A.....	15

1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Dant-y-Coed yn 1 a 2 Adeiladau Maelor, Heol Maelor, Coedpoeth, Wrecsam, LL11 3NG yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 8 Gorffennaf 2015.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol gennym yn ystod yr arolygiad:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd.

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal¹. Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008² a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011³. Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau ar gyfer Tîm Deintyddol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol

¹ <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/hafan>

² <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made/welsh>

³ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh>

- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredir safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Dant-y-Coed yn darparu gwasanaethau i rhwng 15,000 a 20,000 o gleifion yn Wrecsam a'r cyffiniau. Mae'r practis yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Practis cymysg sy'n cynnig gwasanaethau deintyddol preifat a'r GIG yw Dant-y-Coed.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys 6 deintydd (gan gynnwys 2 bartner deintyddol ar gyfer cwmni ymgorfforedig y practis, Thorp, Boojawon & Associates), 2 hyleneidd, 1 therapydd, 13 nyrs ddeintyddol, rheolwr derbynfa a rheolwr practis.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Archwiliadau, llenwadau a gwaith dannedd gosod
- Triniaeth gosmetig ddatblygedig gan gynnwys arwynebau, corunau a phontydd
- Tawelyddiad mewnwythiennol ar gyfer cleifion nerfus a phryderus (oedolion yn unig)
- Triniaethau llawfeddygol fel tynnu cilddannedd ôl
- Gwynnu dannedd
- Ymgynghori ar gyfer triniaethau arbenigol
- Ieuangu ac estheteg y wyneb

4. Crynodeb

Archwiliodd AGIC sut y mae Practis Deintyddol Dant-y-Coed yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Dynododd ymatebion cleifion i holiadur AGIC eu bod yn hynod fodlon â'r gwasanaethau cyffredinol a dderbynnir. Rydym wedi cynghori'r practis i ddatblygu system ar gyfer cael gafael ar adborth cleifion; dylid defnyddio'r adborth hwn i wella a dylanwadu ar y ddarpariaeth o wasanaethau.

Roedd y cyfleusterau clinigol yn dda ar y cyfan a cheir systemau a gweithdrefnau monitro cadarn, yn unol â rheoliadau a/neu ganllawiau. Gwelsom fod y broses ddadheintio (i lanhau a sterileiddio offer ac offerynnau) yn rhagorol.

Roedd y broses o gadw cofnodion yn gyffredinol dda gan yr holl ymarferwyr. Fodd bynnag, rydym wedi hysbysu bod yn rhaid cwblhau hanesion meddygol ar adeg pob triniaeth, yn unol â safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Canfuwyd gennym fod systemau a gweithdrefnau da ar waith i gefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Roedd lefel y wybodaeth a'r arbenigedd ymhlith y deintyddion a'r staff i ni gyfarfod â nhw yn ardderchog. Roedd aelodau'r tîm yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd ac roedd ganddynt ethos dysgu a datblygu cryf. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod angen gwella gweithdrefnau recriwtio'r practis a chytunodd y rheolwyr i wneud hyn ar unwaith.

Ac eithrio mynediad i bobl â symudedd cyfyngedig, roedd yr holl fannau i ni eu gweld yn addas i'r diben ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda ar y cyfan. Roedd amserlenni glanhau manwl ar waith i helpu i leihau'r perygl o groeshalogi.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Dynododd ymatebion cleifion i holiadur AGIC eu bod yn hynod fodlon â'r gwasanaethau cyffredinol a dderbynnir. Rydym wedi cynghori'r practis i ddatblygu system ar gyfer cael gafael ar adborth cleifion; dylid defnyddio'r adborth hwn i wella a dylanwadu ar y modd y darperir gwasanaethau.

Ar ddechrau'r arolygiad gwnaethom dderbyn 20 o holiaduron AGIC a gwblhawyd gan gleifion. Roedd yr holl gleifion yn fodlon â'r gwasanaethau a ddarperir, dywedasant eu bod yn cael croeso gan y staff a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Ychwanegwyd nifer o sylwadau o ganmoliaeth gan gleifion, gan gynnwys pedwar o bobl a ddywedodd eu bod wedi bod ofn deintyddion yn y gorffennol ond eu bod yn teimlo'n gyfforddus ers dod i Ddant y Coed. Mae rhai sylwadau eraill wedi cael eu cynnwys, gyda chaniatâd y cleifion, isod:

“Staff hyfryd; y deintydd gorau yr wyf erioed wedi ei gael. Bob amser yn cael fy nghyfarch â gwên. Mae'r deintydd bob amser yn llawn dealltwriaeth ac yn ofalgar”.

“Mae'r staff bob amser yn gyfeillgar, yn effeithlon ac yn glên. Bob amser yn barod i ddiwallu anghenion o ran apwyntiadau. Mae'r gofal deintyddol wedi bod yn rhagorol. Hynod fodlon”.

“Mae dau bartner y practis hwn bob amser yn barod i helpu ac yn barod i wneud ychydig mwy na'r mwyafrif”.

Nid oedd yr holl gleifion yn gwybod sut i wneud cwyn ond dywedodd un neu ddau ohonynt y byddent yn siarad ag aelodau'r staff pe bai'r angen yn codi. Gwelsom fod gan gleifion fynediad at amrywiaeth o wybodaeth ysgrifenedig am y gwasanaeth, gan gynnwys ffioedd triniaethau deintyddol y GIG a phreifat, manylion cyswllt y tu allan i oriau a sut i wneud cwyn. Fe'n hysbyswyd y disgwyliwyd i daflen a gwefan y practis gael eu diweddarau yn dilyn newidiadau i'r staff. Dylid cwblhau'r gwaith hwn cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod gan gleifion fynediad at wybodaeth gywir a chyfredol.

Canfuwyd gennym fod rhai o aelodau'r staff yn siarad Cymraeg neu'n gallu deall y Gymraeg, er nad oedd unrhyw ffordd amlwg o'u hadnabod. Cytunodd y

staff i gymryd anghenion cyfathrebu ac iaith cleifion i ystyriaeth wrth gynnal eu hadolygiad o wybodaeth ysgrifenedig a chyfathrebiad cyffredinol.

Canfuwyd gennym o'n trafodaethau gyda'r rheolwyr bod arolygon cleifion yn cael eu dosbarthu o dro i dro gan y deintydd dan hyfforddiant sylfaenol, yn rhan o'i gwrs hyfforddi, a chan y ddau bartner deintyddol yn rhan o'u gwaith ysbyty. Fodd bynnag, nid oedd gan y practis ei system ffurfiol ei hun ar gyfer cael gafael ar adborth, felly cynghorwyd y practis i ystyried gwahanol ddulliau y gellid eu cyflwyno at y diben hwn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis gyflwyno ei brosesau ei hun ar gyfer gwerthuso profiadau cleifion. Dylid defnyddio'r adborth a dderbynnir i wella a gwneud newidiadau cadarnhaol i'r modd y darperir gwasanaethau.

Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal

Roedd y cyfleusterau clinigol yn dda ar y cyfan a cheir systemau a gweithdrefnau monitro cadarn, yn unol â rheoliadau a/neu ganllawiau. Gwelsom fod y broses ddadheintio (i lanhau a sterileiddio offer ac offer) yn rhagorol.

Roedd y broses o gadw cofnodion yn gyffredinol dda gan yr holl ymarferwyr. Fodd bynnag, rydym wedi hysbysu bod yn rhaid cwblhau hanesion meddygol ar adeg pob triniaeth, yn unol â safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Gwelsom dystiolaeth ysgrifenedig yn dangos bod yr unedau radiograffig (pelydr X) a ddefnyddir yn cael eu harchwilio a'u cynnal a'u cadw'n rheolaidd. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw orchudd ar ben un o'r peiriannau pelydr X ac felly roedd rhai o'r gwifrau trydanol wedi'u hamlygu, a allai fod yn beryglus pe ymyrrwyd â nhw. Fe'n hysbyswyd y byddai camau'n cael eu cymryd ar unwaith i ail-orchuddio'r darn hwn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Bydd y practis yn darparu cadarnhad ysgrifenedig i AGIC bod gorchudd pen ar un o'r unedau radiograff wedi cael ei drwsio ac felly nad yw'n berygl iechyd a diogelwch posibl mwyach.

Nid oedd hyfforddiant radiograffig a diogelwch ymbelydredd un o'r nyrsys deintyddol wedi'i ddarparu mewn pryd gan ei bod yn dal i aros am ddyddiad diweddar. Fodd bynnag, pan amlygwyd gennym y dylid derbyn o leiaf 5 awr o hyfforddiant bob 5 mlynedd er mwyn cydymffurfio ag argymhelliad y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, trefnwyd a thalwyd am gwrs hyfforddiant ar-lein priodol yn ystod ein harolygiad. Gwelsom fod yr holl staff perthnasol eraill wedi derbyn yr hyfforddiant hwn yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, felly ni nodwyd hyn gennym fel rhywbeth y mae angen ei wella y tro hwn.

Gwelsom fod gan y practis offer dadebru a meddyginiaeth addas i'w defnyddio mewn argyfwng. Roedd system ar waith i fonitro a disodli'r rhain yn unol â'u dyddiadau terfyn. Dylai meddyginiaeth fod yn hygyrch ar unwaith mewn achos brys (yn unol â chanllawiau Cyngor Dadebru'r DU) ond canfuwyd gennym fod un o'r meddyginiaethau'n cael ei chadw yn y ddiogell a bod meddyginiaeth arall yn cael ei chadw yn yr oergell. Canfuwyd gennym nad oedd tymheredd yr oergell yn cael ei fonitro ac felly cynghorwyd gennym y dylid adolygu'r drefn ar gyfer storio meddyginiaeth frys.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid adolygu'r drefn gyffredinol o storio meddyginiaeth, yn unol â chanllawiau meddyginiaeth ar gyfer practisau deintyddol.

Roedd tri o'r deintyddion wedi cael eu hyfforddi i ddarparu triniaeth o dan dawelyddiad. Darperir y gwasanaeth hwn i oedolion yn unig a chanfuwyd, o'n trafodaethau gyda'r staff, bod gweithdrefnau cadarn ar waith. Roedd y staff yn gwbl ymwybodol o ganllawiau'r Pwyllgor Cynghori Rhyng-golegol ar Dawelyddiad mewn Deintyddiaeth 2015.

Edrychwyd ar bob un o'r saith ystafell driniaeth a oedd yn lân ac wedi'u stocio'n dda â'r cyfarpar a'r offer angenrheidiol. Roedd un o'r deintyddion wedi paratoi gwahanol doddiannau ymlaen llawn mewn chwistrelli Monoject (tra byddai gwahanol chwistrelli'n cael eu defnyddio fel rheol, yn dibynnu ar y toddiant). Roedd y chwistrelli wedi cael eu storio mewn bagiau wedi'u labelu'n unigol ac roedd pob chwistrell yn cynnwys llythyr cyfatebol i ddynodi pa doddiant oedd ynddi. Fodd bynnag, roedd y potensial o gamgymeriad a risg dynol o hyd pe bai'r chwistrelli'n cael eu cymysgu ar ddamwain a'r toddiant anghywir yn cael ei ddefnyddio yn ystod triniaethau cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig i AGIC bod yr holl ddeintyddion yn defnyddio'r chwistrelli priodol ar gyfer pob toddiad erbyn hyn, gan leihau'r posibilrwydd o gamgymeriad dynol a niwed posibl i gleifion.

Gwelsom fod y cyfleusterau a'r gweithdrefnau dadheintio yn rhagorol ar y cyfan, ac yn cyd-fynd â chanllawiau dadheintio Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05). Ceir pedair ffwrn aerglos (offer sterileiddio) yn y practis, a chaiff pob un ohonynt ei chynnal a'i phrofi'n rheolaidd. Fodd bynnag, roedd y ffwrn aerglos gwactod yn cael ei defnyddio'n llai aml ac felly'n cael ei harchwilio cyn cael ei defnyddio'n unig. Ar ein cais, cytunodd y rheolwyr i ailgyfeirio at ganllawiau'r gweithgynhyrhydd i wirio a oes angen archwiliadau mwy rheolaidd ar y ffwrn aerglos hon. Cytunasant hefyd i ymgynghori â'r labordy er mwyn sicrhau bod yr argraffion a ddychwelir i'r practis wedi cael eu sterileiddio'n gyntaf.

Gwelsom fod yr offer deintyddol wedi cael eu rhoi mewn bocs â chod lliw wedi'i labelu'n eglur, yn dibynnu a oedd angen eu sterileiddio neu a oeddent wedi cael eu prosesu eisoes. Caiff offer eu cludo mewn lifft nwyddau sy'n atal y perygl o ollyngiadau rhwng y ddeintyddfa a'r ystafelloedd dadheintio. Ceir dwy ran i'r lifft er mwyn gwahanu'r offerynnau a ddefnyddiwyd a'r rhai glân. Fe'n hysbyswyd bod trefn lanhau ychwanegol ar gyfer y lifft er mwyn atal croeshalogiad. Mae'r ystafell ddadheintio yn fan sy'n rhydd o latecs, sy'n helpu i sicrhau na chaiff alergenau eu trosglwyddo drwy'r offerynnau i gleifion ag alergedd latecs. Ceir

system archwilio eglur i olrhain pob darn o offer a sterileiddiwyd, sydd unwaith eto'n arfer rhagorol.

Gwelsom ar ddiwrnod yr arolygiad bod cetrisen anesthetig lleol wedi cael ei thafllu mewn bin â chaead oren, a ddylai gael ei ddefnyddio ar gyfer offer miniog yn unig. Fe'n hysbyswyd gan un o'r partneriaid deintyddol ei bod yn ofynnol i'r holl ddeintyddion gael gwared ar y cetris anesthetig lleol yn y bin â chaead melyn yn y ddeintyddfa. Cytunodd felly i atgoffa'r holl ddeintyddion i gydymffurfio â'r arfer hwn bob amser.

Edrychwyd ar sampl o gofnodion tri chlaf ar gyfer pob deintydd a hyleneidd, a oedd yn cynnwys claf a gafodd ei drin dan dawelyddiad. Roedd cofnodion y cleifion yn dangos bod caniatâd cleifion i driniaeth yn cael ei dderbyn a bod eu hopsiynau triniaeth yn cael eu trafod. Gwelsom fod cofnodion ychwanegol wedi'u cynnwys ar gyfer cleifion a oedd yn derbyn tawelyddiad, gan gynnwys asesiad ymlaen llaw, llythyr caniatâd a'r union ddos a ddefnyddiwyd.

Gwelsom fod hanesion meddygol cleifion yn cael eu diweddarau ar y system gyfrifiadurol; roedd polisi'r practis yn nodi y cwblheir ffurflenni hanes meddygol bob blwyddyn o leiaf. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd na ofynnir i gleifion gwblhau'r ffurflen hanes meddygol bob amser oni bai y bu newidiadau ers eu hymweliad blaenorol. Atgoffir y practis y dylai'r system ar gyfer gwirio hanesion meddygol cleifion gydymffurfio â safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, sy'n nodi bod yn rhaid creu a chadw cofnodion cleifion cywir a chyflawn, yn cynnwys hanes meddygol, bob tro y caiff cleifion eu trin.

Gwelsom fod cyfleusterau storio y gellir eu cloi ar y safle. Roedd y practis wedi newid i brosesu radiograffau yn ddigidol. Roedd trefniadau wedi'u gwneud i archifo'r copïau caled blaenorol; fodd bynnag, canfuwyd nad oedd clo ar y cypyrddau yr oedd y rhain yn cael eu cadw ynddynt. Gan fod rhywun yn y man hwn bob amser a bod cynlluniau eisoes ar y gweill i symud y rhain i leoliad diogel yn ystod y mis dilynol, ni wnaethpwyd cais gennym i gymryd unrhyw gamau pellach y tro hwn.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Canfuwyd gennym fod systemau a gweithdrefnau da ar waith i gefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Roedd lefel y wybodaeth a'r arbenigedd ymhlith y deintyddion a'r staff i ni gyfarfod â nhw yn ardderchog. Roedd aelodau'r tîm yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd ac roedd ganddynt ethos dysgu a datblygu cryf. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod angen gwella gweithdrefnau recriwtio'r practis a chytunodd y rheolwyr i wneud hyn ar unwaith.

Roedd strwythur rheoli effeithiol ar waith a chaiff tasgau rheoli eu dirprwyo rhwng y partneriaid, rheolwr practis, rheolwr nyrsio a rheolwr derbynfa. Canfuwyd gennym fod gan y staff synnwyr eglur o'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau'n gynhwysfawr ac roedd y rheolwr nyrsio deintyddol, sy'n gyfrifol am ddatblygu ac adolygu'r rhan fwyaf o'r rhain, wedi defnyddio deunyddiau hyfforddi ac enghreifftiau darluniadol/ffotograffig i sicrhau'r effaith orau.

Canfuwyd gennym fod y ddau bartner deintyddol yn hynod gymwysedig, fedrus a phrofiadol, a hefyd yn cyflawni llawdriniaeth y geg arbenigol a deintyddiaeth gosmetig mewn ysbytai yn gyfnodol. Caiff y deintyddion eraill a'r nyrsys deintyddol eu hannog i ddilyn eu diddordebau arbennig eu hunain hefyd, fel oedd yn amlwg yn ystod ein trafodaethau gyda'r staff.

Mae aelodau staff newydd a hyfforddeion yn dilyn rhaglen sefydlu strwythuredig, yn unol â'u swyddogaethau unigol. Dangosodd ein trafodaeth gydag un o aelodau'r staff bod y cyfnod sefydlu a ddarparwyd yn rhagorol. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod bylchau yng ngweithdrefnau recriwtio'r practis. Er enghraifft, pan edrychwyd ar ffeil y gweithiwr cyflogedig diweddaraf, canfuwyd nad oedd unrhyw dystlythyrau ysgrifenedig wedi'u derbyn.

Fe'n hysbyswyd y cyflogwyd mwyafrif y staff cyn i'r ddau bartner deintyddol presennol gymryd y busnes drosodd tua deng mlynedd yn ôl ac nad oedd archwiliad gan y gwasanaeth datgelu a gwahardd ar gael ar eu cyfer nhw. Er nad yw'n orfodol i staff y practis gael archwiliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ceir gofyniad i'r deintydd sy'n cyflogi gynnal archwiliadau i sicrhau addasrwydd staff ar gyfer cyflogaeth. Cyflwynwyd archwiliad un o'r deintyddion gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn 2011, er i ni weld bod y deintyddion eraill wedi derbyn archwiliad gan y Gwasanaeth yn ystod y tair blynedd diwethaf (yn unol â rheoliadau).

Yr hyn sydd angen ei wella

Atgoffir y practis bod yn rhaid i'r holl ddeintyddion feddu ar dystysgrif uwch y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd y mae llai na thair blynedd wedi mynd heibio ers ei chyflwyno, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Dylai'r practis ystyried cael gafael ar archwiliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer staff sydd â mynediad at oedolion agored i niwed a phlant, gan gynnwys y rhai sydd â mynediad at gofnodion cleifion. Byddai'r arfer hwn yn cyd-fynd â dogfen "Guidance for Safeguarding Children & Vulnerable Adults in General Dental Practice" 2011 y GIG ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Edrychwyd ar sampl o gofnodion cyfarfodydd tîm a ddynododd gyfres o gyfarwyddiadau neu nodiadau atgoffa i staff o ran pethau i'w gwneud a phethau i beidio â'u gwneud. Awgrymwyd gennym felly y dylai rheolwyr annog cydweithrediad â chyfranogiad ymarferol gan staff, i hybu dysgu a datblygu o'r trafodaethau hyn.

Roedd gweithdrefn gwynion y practis ar gael yn rhwydd i gleifion yn yr ystafelloedd aros. Gwelsom fod polisiau cadarn ar waith, yn cynnwys cleifion sy'n derbyn gwasanaethau deintyddol y GIG a phreifat. Roedd sampl o'r cofnod cwynion i ni edrych arno'n dynodi bod y practis yn rhoi ystyriaeth ddifrifol i gwynion ac yn ymateb iddynt yn unol ag amserlenni, yn unol â threfniadau 'Gweithio i Wella' y GIG⁴. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd nad oedd pob sylw anffurfiol, er enghraifft pe bai claf yn mynd at y derbynnnydd pan fo deintydd yn rhedeg yn hwyr, yn cael ei gofnodi. Awgrymwyd gennym felly y dylid cadw cofnod o'r mathau hyn o sylwadau, a ddylai helpu staff i fonitro a, lle'n bosibl, lliniaru unrhyw themâu cyffredin sy'n codi.

Gwelsom dystiolaeth ysgrifenedig yn dangos bod y staff yn gyfredol o ran datblygu proffesiynol parhaus, archwiliadau imiwneiddio, cofrestriadau proffesiynol ac archwiliadau indemniad.

⁴ 'Gweithio i Wella' y GIG yw'r trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion am wasanaethau'r GIG, ac ymateb iddynt.

Ansawdd yr Amgylchedd

Ac eithrio mynediad i bobl â symudedd cyfyngedig, roedd yr holl fannau i ni eu gweld yn addas i'r diben ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda ar y cyfan. Roedd amserlenni glanhau manwl ar waith i helpu i sicrhau bod y perygl o groeshalogi mor fach â phosibl.

Nid yw Dant-y-Coed yn hygyrch i gleifion sy'n defnyddio cadair olwyn neu sydd â symudedd cyfyngedig. Fe'n hysbyswyd gan y partneriaid deintyddol bod eu haddasiadau arfaethedig i wella hygyrchedd wedi cael eu gwrthod, gan y byddai'r ramp allanol neu'r cyfleusterau y byddai eu hangen ar gyfer mynediad i gadeiriau olwyn yn cymryd gormod o le ar y palmant cyhoeddus a'r ffordd y tu allan. Mae un o'r toiledau i gleifion wedi'i addasu ar gyfer mynediad i bobl anabl.

Ac eithrio'r cyfyngiadau mynediad, canfuwyd gennym fod y cyfleusterau'n dda fel arall. Roedd dwy ystafell aros fawr i gleifion, un yn cynnwys cyfleusterau i blant, ystafelloedd staff ar wahân a chyfleusterau storio digonol. Roedd cynlluniau ar y gweill i ailwampio un o'r deintyddfeydd.

Mewn ymateb i'n holiadur, dywedodd un o'r cleifion y byddai maes parcio i gleifion yn ddefnyddiol ar gyfer y ddeintyddfa. Gwelsom fod maes parcio i'r staff i'r ochr o'r adeilad ond, oherwydd y lle cyfyngedig, roedd y ceir yn rhwystro ei gilydd ac felly byddai'n anaddas fel maes parcio i gleifion. Mae maes parcio cyhoeddus am ddim wedi'i leoli ar draws yr heol o'r practis, a dywedodd un claf bod hyn yn fantais, a cheir lleoedd parcio ar y stryd gerllaw.

Gwelsom dystiolaeth o fesurau rheoli heintiau cadarn i atal croeshalogiad. Ceir glanhawr penodol a gwelsom fod amserlenni glanhau manwl wedi'u harddangos yn y gwahanol rannau o'r practis. Roedd cod lliw ar gyfer offer ac eitemau glanhau ar sail ardaloedd clinigol, toiledau/ystafelloedd ymolchi a manau nad ydynt yn glinigol. Gwelsom fod safon y glendid ar ddiwrnod yr arolygiad yn dda iawn.

Gan fod y practis wedi cael ei greu o ddau dŷ drws nesaf i'w gilydd, ceir rhyw fymryn o wahaniaeth yn lefelau'r llawr mewn un neu ddau o'r manau a ddefnyddir gan gleifion. Fe'n hysbyswyd bod tâp i rybuddio cleifion wedi cael ei symud ar ôl iddo ddechrau pilio i ffwrdd. Fodd bynnag, cytunodd y practis i roi arwyddion yn y manau hyn i rybuddio cleifion am berygl posibl.

Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran profiad y claf, cyflenwi safonau iechyd a gofal a rheolaeth ac arweinyddiaeth. Mae'r manylion hyn i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Dant-y-Coed yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

**Practis: Practis Deintyddol Dant-y-Coed, 1 a 2 Adeiladau Maelor,
Heol Maelor, Coedpoeth, Wreccsam, LL11 3NG**

Dyddiad yr Arolygiad: 08 Gorffennaf 2015

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Profiad y Claf			
7	<i>Dylai'r practis gyflwyno ei brosesau ei hun ar gyfer gwerthuso profiadau cleifion. Dylid defnyddio'r adborth a dderbynnir i wella a gwneud newidiadau cadarnhaol i'r ddarpariaeth o wasanaethau.</i> [Safon Iechyd a Gofal 6.3]	Yn dilyn yr arolygiad, rydym wrthi'n datblygu ffurflen adborth cleifion ddiennw a fydd ar gael i bob claf yn yr ystafell aros. Bydd yn cael ei hadolygu a'i gwerthuso bob tri mis er mwyn gwella a dylanwadu ar ddarpariaeth gadarnhaol o wasanaethau.	Angela Howells	O fewn 2 fis

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal				
8	<i>Bydd y practis yn darparu cadarnhad ysgrifenedig i AGIC bod gorchudd pen ar un o'r unedau radiograff wedi cael ei drwsio ac felly nad yw'n berygl iechyd a diogelwch posibl mwyach.</i> [Safon Iechyd a Gofal 2.9]	Gallwn gadarnhau bod yr uned radiograff dan sylw wedi cael ei thrwsio. Llythyr gan y peiriannydd i ddilyn.	Adrian Thorp	Ar unwaith (cwblhawyd)
9	<i>Dylid adolygu'r drefn gyffredinol o storio meddyginiaeth, yn unol â chanllawiau meddyginiaeth ar gyfer practisau deintyddol.</i> [Safon Iechyd a Gofal 2.6]	O ran storio'r cyffur mewnwythiennol dosbarth 2 (Midazolam), mae'r canllawiau'n nodi y dylai fod mewn cwpwrdd ar glo (caiff ei storio yn ein diogell ar hyn o bryd). Byddwn yn parhau â'r weithdrefn hon yn ein practis. O ran y cyffur dosbarth 2 bochaid (Midazolam) a gedwir yn ein diogell ar hyn o bryd, bydd hwn yn cael ei symud i'r bocs cyffuriau brys nawr a gwnaed trefniadau i'w roi mewn cwpwrdd â chlo bysellbad.	Ravi Boojawon	O fewn 2 fis
9	<i>Dylai'r practis ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig i AGIC bod yr holl ddeintyddion yn defnyddio'r chwistrelli priodol ar gyfer pob toddiant erbyn hyn, gan sicrhau fod y posibilrwydd o gamgymeriad dynol a niwed posibl i</i>	Rydym wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio'r broses ymlaen llaw hon erbyn hyn a byddwn yn llenwi chwistrelli dim ond pan fo'u hangen.	Adrian Thorp	Ar unwaith (cwblhawyd)

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	gleifion. [Safon Iechyd a Gofal 2.6]			
Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
11 a 12	<p>Atgoffir y practis bod yn rhaid i'r holl ddeintyddion feddu ar dystysgrif uwch y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd y mae llai na thair blynedd wedi mynd heibio ers ei chyflwyno, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.</p> <p>Dylai'r practis ystyried cael gafael ar archwiliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer staff sydd â mynediad at oedolion agored i niwed a phlant, gan gynnwys y rhai sydd â mynediad at gofnodion cleifion. Byddai'r arfer hwn yn cyd-fynd â dogfen "Guidance for Safeguarding Children & Vulnerable Adults in General Dental Practice" 2011 y GIG ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 2.7 a 7.1]</p>	<p>Mae gan bob aelod newydd o'r staff, gan gynnwys clinigwyr, dystysgrif uwch gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.</p> <p>[Gofynnwyd i'r deintydd yr oedd ei dystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd y tu allan i'r cyfnod amser o dair blynedd i adnewyddu hyn bellach ac i roi copi o'r dystysgrif gan y Gwasanaeth i'r practis].</p> <p>Rydym wedi dechrau cyflwyno rhaglen barhaus o ardystiad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer holl aelodau presennol o'r staff sydd â mynediad at oedolion agored i niwed a phlant, gan gynnwys staff y dderbynfa.</p> <p>[Bydd archwiliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal fel mater o drefn ar gyfer aelodau staff newydd sy'n cael eu recriwtio, gan gynnwys clinigwyr].</p>	Angela Howells	12 mis

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Ansawdd yr Amgylchedd			
	Amherthnasol			

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (llythrennau bras): Angela Howells.....

Teitl: Rheolwr y Practis.....

Dyddiad: 4 Awst 2015.....